

# galeri



**Swydd:** Cynorthwy-ydd Dylunio a Digidol  
**Adran:** Marchnata  
**Yn atebol i:** Cyfarwyddwr Marchnata

---

**Dyddiad cau:** Gwener, 30.11.18 am 12:00 (hanner dydd)  
**Cyfweliadau:** Dyddiad i'w gadarnhau  
**Cyflog:** I'w drafod  
**Oriau:** 21 awr yr wythnos  
(gan amlaf 3 diwrnod 7 awr ond gyda'r hyblygrwydd i addasu yn ôl yr angen. Gall gynnwys gyda'r nos/penwytnnosau yn achlysurol)

**I ymgeisio:** Bydd angen cwblhau ffurflen gais a copi o'ch CV

**Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:**  
**Steffan Thomas** **Iona Davies**  
**01286 685 211** **01286 685 218**  
**steffan.thomas@galericaernarfon.com** **iona.davies@galericaernarfon.com**

---

## **Prif bwrpas y Swydd:**

I weithio law yn llaw gyda cyfarwyddwr marchnata Galeri i gynorthwyo gyda gofynion dylunio'r cwmni ac i arwain elfennau marchnata digidol Galeri Caernarfon Cyf.

Mae'r swydd yn gofyn am berson creadigol, gwybodus a chydwybodol sydd yn gallu gweithio yn unigol ac fel rhan o dîm. Mi fydd gan y person llwyddiannus ddealltwriaeth am wefannau, marchnata digidol a dylunio ac yn gallu ymateb/gweithio i frîff a/neu i'r galw gan gynulleidfaedd Galeri.

Mae'r swydd hefyd yn darparu cefnogaeth dydd i ddydd i'r adran farchnata i ddatblygu strategaeth farchnata ac i ddyfeisio a gweithredu ymgyrchoedd marchnata amrywiol.

## **Prif ddyletswyddau/cyfrifoldebau:**

### **Yn gyffredinol:**

- Helpu i ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata
- Helpu i ddyfeisio, cyflwyno a gweithredu ymgyrchoedd marchnata
- Datblygu strategaeth farchnata digidol Galeri Caernarfon Cyf
- Cynorthwyo yr adran farchnata i gyrraedd targedau amrywiol
- Cynorthwyo yr adran o ran rheoli a defnyddio system docynnau Ticketsolve

**Digidol:**

- Arwain presenoldeb ac ymgyrchoedd marchnata digidol Galeri ar wefanau cymdeithasol megis Facebook, Twitter ac Instagram (ac eraill)
- Chwilio a gweithredu cyfleoedd i ddatblygu cynulleidfaoedd digidol Galeri
- Datblygu'r wefan (o ran cynnwys / strwythr)
- Cydlynnu a datblygu e-fwletinau Galeri (gan ddefnyddio meddalwedd Mailchimp)
- Creu asedau digidol amrywiol:
  - Dylunio
  - Fideo
  - Lluniau
- Golygu ffilmiau byrion ar gyfer hyrwyddo gwaith Galeri (digwyddiadau / hanes / cyffredinol)
- Monitro ystadegau (Google Analytics a tueddiadau amrywiol) ac ymateb i'r galw

**Print:**

- Dylunio gwaith print amrywiol (fel bo angen)
- Casglu a chydlynnu manylion ar gyfer gweithiau print amrywiol eraill (e.e. rhaglen dymhorol)

**Manyldeb Person:**

- Creadigol
- Egniol, cyfrifol, brwdfrydig, cwrtais, angerddol
- Yn gallu defnyddio meddalweddau dylunio (e.e. InDesign)
- Yn gallu creu ffilmiau byrion / golygu gyda meddalweddau (e.e. I-movie)
- Yn gallu cyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Arddangos hunan gred a gonestrwydd
- Hyderus i gyfrannu syniadau arloesol/newydd
- Angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri

Rhoddir hyfforddiant lawn ar systemau tocynnau (Ticketsolve) ac mae cyfleoedd hyfforddi pellach yn bosib i'r ymgeisydd llwyddiannus.